AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru: Canlyniadau trenau, 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r deuddeg mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (yr Arolwg Teithio). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 6,100 o ymatebion a 18,000 o deithiau a gofnodwyd o bob cwr o Gymru. Ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu yw'r data.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar deithio ar drenau. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth am sut mae pobl yn teithio, a'u barn a'u hagweddau tuag at wasanaethau trenau. Nid yw'r Arolwg Teithio yn gwahaniaethu yn ôl darparwr gwasanaeth, ac felly gall ffigurau ar gyfer defnydd neu fodlonrwydd fod yn wahanol i ffigurau sy'n benodol i gwmnïau.

Mae'r Arolwg Teithio yn arolwg newydd, a dyma'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf yng Nghymru ers 2012. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Efallai fod gwahaniaethau'n codi oherwydd bod diffiniadau gwahanol wedi'u defnyddio ar gyfer arolwg, gan fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio neu gan fod gwahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf yr arolwg, gyda data'n cael ei gasglu o sypiau rhwng mis Mawrth 2025 a mis Chwefror 2026. Mae gwybodaeth am ansawdd ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd.

Mae nifer o dermau sy'n ymwneud yn benodol â thrafnidiaeth wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi llunio dogfen ddiffiniadau i helpu pawb i ddeall.

Y prif ganfyddiadau

- Rydym yn amcangyfrif bod 1.9% o deithiau y pen y flwyddyn wedi'u gwneud ar drenau.
- Roedd 69.6% o deithiau ar drenau wedi cael eu gwneud gan y 10.5% o ymatebwyr a oedd yn teithio ar drên o leiaf unwaith yr wythnos.
- Cerdded ac olwyno oedd y dull mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd i deithio i orsafoedd (70.7%) ac o orsafoedd trenau (68.5%).
- Roedd 78.6% o ddefnyddwyr trenau naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu taith gyffredinol.
- "Tocynnau rhatach, symlach" oedd y ffactor mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog defnyddwyr trenau i deithio ar drên yn amlach (60.2%).
- Cost fesul cilomedr wedi'i bwysoli a deithiwyd ar drên oedd £0.24.

Nodyn ar y data

Amcangyfrifon yw'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac yn y tablau ategol, sy'n seiliedig ar ymddygiad a barn ymatebwyr. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth oedolion Cymru.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn fwy ar gyfer grwpiau llai a dulliau teithio llai cyffredin. Er enghraifft, mae amcangyfrifon ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar 2,825 o ymatebwyr, o'i gymharu â 665 o Ganolbarth Cymru, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dal i ddarparu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer y grwpiau llai hyn o'r boblogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am gywirdeb a manylder yr amcangyfrifon hyn ar gael yn adran Cywirdeb yr Adroddiad Ansawdd.

Ar gyfer rhai cwestiynau, gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n dod i 100%.

Amlder teithiau ar drên

Roedd y cwestiynau am ba mor aml yr oedd pobl yn teithio yn mesur pa mor aml yr oedd unigolyn wedi teithio ar drên yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn wahanol i gyfran y dull teithio, sef cyfran y teithiau y pen y flwyddyn a wneir ar drên.

- Dywedodd 10.5% o'r ymatebwyr eu bod yn teithio ar drên o leiaf unwaith yr wythnos (2.7% y rhan fwyaf o ddiwrnodau, 4.1% sawl gwaith yr wythnos a 3.7% unwaith yr wythnos).

- Roedd 57.8% o'r ymatebwyr yn teithio ar drên yn anaml, gydag 14.9% o ymatebwyr yn defnyddio trenau unwaith neu ddwy y mis, 18.4% unwaith bob ychydig fisoedd, a 24.6% unwaith neu ddwy yn ystod y flwyddyn.

- Dywedodd 31.1% o'r ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio trên o gwbl.

Trenau: amlder teithio

Ffigur 1: Pa mor aml yr oedd ymatebwyr wedi defnyddio trên dros y deuddeg mis diwethaf, 2025/26.



Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar llorweddol yn dangos canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio trên yn aml, yn anaml neu ddim o gwbl. Dywedodd 10.5% o ymatebwyr eu bod yn defnyddio trên yn aml, gyda 57.8% yn dweud mai anaml yr oeddent yn teithio ar drên.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, amlder teithio

Statws anabledd

- Roedd mwy o ymatebwyr nad ydynt yn anabl yn defnyddio gwasanaethau trên nag ymatebwyr anabl. Dywedodd 44.0% o ymatebwyr anabl nad oeddent wedi teithio ar drên o gwbl yn ystod y deuddeg mis diwethaf, o'i gymharu â 27.0% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl.

- Nododd 11.0% o ymatebwyr anabl eu bod yn defnyddio trên o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu â 6.9% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl.

Rhanbarthau

- De-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r trên o leiaf unwaith yr wythnos (13.8%), yna Canolbarth Cymru (8.2%), Gogledd Cymru (7.9%) a De-orllewin Cymru (6.7%).

- Canolbarth Cymru oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr nad oeddent yn teithio ar drenau o gwbl (38.0%) ac yna Gogledd Cymru (34.0%) a De-orllewin Cymru (32.8%). De-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfran isaf, sef 28.1%.

Grŵp oedran

- Roedd 22.7% o'r ymatebwyr 16-24 oed yn defnyddio trên o leiaf unwaith yr wythnos, y gyfran uchaf ar gyfer unrhyw grŵp oedran.

- Dim ond 3.9% o'r ymatebwyr 85 oed neu hŷn oedd yn teithio ar y trên o leiaf unwaith yr wythnos, y gyfran isaf ar gyfer unrhyw grwpiau oedran.

Cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 yn graddio amddifadedd cymharol ardaloedd bach yng Nghymru. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru wedi'u grwpio'n gwintelau (pum grŵp o'r un maint). Mae Cwintel 1 (C1) yn cynnwys 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Cwintel 5 (C5) yn cynnwys 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru. Mae gwybodaeth ynghylch sut mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn diffinio amddifadedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Mae defnyddio trenau'n aml yn uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig gydag 13.1% o'r ymatebwyr yn C1 yn defnyddio'r trên o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu ag 8.5% yn C5.

- Dywedodd 34.2% o ymatebwyr yn C1 nad oeddent wedi teithio ar drên o gwbl yn ystod y deuddeg mis diwethaf, o'i gymharu â 26.0% o ymatebwyr yn C5.

Cyfran o'r prif ddull teithio

Mae'r prif ddull teithio yn cyfeirio at y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y pellter hiraf o fewn taith. Y gyfran o'r prif ddull teithio yw canran y teithiau y pen y flwyddyn sy'n cael eu cwblhau drwy brif ddull penodol.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod ymatebwyr wedi gwneud 11.9 taith y pen y flwyddyn ar y trên.

- Yn gyffredinol, defnyddiwyd y trên fel y prif ddull teithio mewn 1.9% o'r holl deithiau. Roedd hyn yn cyfrif am 33.7% o'r holl deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus (35.3 taith y pen y flwyddyn) yn 2025/26.

- Roedd 2.3% o deithiau gan breswylwyr mewn ardaloedd trefol yn cael eu gwneud ar drên, o'i gymharu ag 1.0% o deithiau gan unigolion mewn ardaloedd gwledig.

Rheilffyrdd: Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl rhanbarth

Ffigur 2: Cyfran y teithiau y pen y flwyddyn ar drên, 2025/26.



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar llorweddol sy'n dangos cyfran y teithiau, y pen y flwyddyn ar drên. Roedd 2.7% o deithiau yn Ne-ddwyrain Cymru yn cael eu gwneud ar drên, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (1.9%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, cyfran o'r prif ddull teithio

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl amlder teithio

- Cyfran fach o'r boblogaeth oedd yn tueddu i deithio ar y trên. Mae pobl sy'n defnyddio trenau'n aml, sef y rheini sy'n teithio ar drên o leiaf unwaith yr wythnos, yn cyfrif am 10.5% o ymatebwyr ond yn ffurfio 69.5% o'r holl deithiau ar drên. Roedd y defnyddwyr mynych hyn yn gwneud 13.7% o'u teithiau ar drên (78.7 taith y pen y flwyddyn).

- Nodwyd nad oedd 57.8% o ymatebwyr yn defnyddio trenau'n aml. Roedd yr ymatebwyr hyn yn gwneud 0.9% o'u teithiau ar drên (6.2 taith y pen y flwyddyn) ac yn cyfrif am 30.0% o'r holl deithiau ar drên.

- Dywedodd 31.1% arall o'r ymatebwyr nad oeddent yn teithio ar drên o gwbl a'u bod yn gwneud llai na dwy daith y pen y flwyddyn ar drên.

- Er bod cyfran uwch o deithiau wedi cael eu cwblhau ar fws (3.7%) na thrên (1.9%), rydym yn amcangyfrif bod mwy o bobl wedi gwneud o leiaf un daith ar drên (68.3%) yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â bws (54.9%).

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

- Roedd preswylwyr yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn gwneud 2.3% o'u teithiau ar drenau. Roedd hyn yn gostwng wrth i lefel yr amddifadedd ostwng, ond dim ond rhywfaint. Roedd preswylwyr yr 20% o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru yn gwneud 1.6% o'u teithiau ar drenau.

Mynegai o wyth gwahanol fath o amddifadedd yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Cyfeirir at y rhain fel meysydd amddifadedd. Ochr yn ochr â chwintelau cyffredinol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, rydym hefyd wedi dadansoddi ymddygiad teithio yn ôl y maes incwm a'r maes mynediad at wasanaethau.

Mae'r maes incwm (amddifadedd incwm o hyn ymlaen) yn mesur cyfran y bobl sy'n wynebu amddifadedd sy'n gysylltiedig ag incwm isel.

Mae'r maes mynediad at wasanaethau (amddifadedd mynediad at wasanaethau o hyn ymlaen) yn cofnodi anallu aelwyd i gael gafael ar wasanaethau sy'n angenrheidiol i fyw o ddydd i ddydd. Mae'n cynnwys amddifadedd materol (fel methu cael bwyd) ac agweddau cymdeithasol ar amddifadedd (fel methu mynychu gweithgareddau ar ôl ysgol).

Mae rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn ar gael yn adroddiad technegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025.

- Nid oedd tuedd glir yng nghyfran y teithiau ar drenau yn ôl amddifadedd incwm. Rydym yn amcangyfrif bod trigolion yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran incwm (C1) yng Nghymru wedi gwneud 2.3% o'u teithiau ar drenau, sy'n cyfateb i'r gyfran a wnaed gan y rheini yn C2 ac C5.

- Gwelsom mai trigolion yn yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau oedd yn gwneud y nifer lleiaf o deithiau ar drenau (0.9% o'r holl deithiau, neu 5.8 taith y pen y flwyddyn).

- Roedd y rheini â'r mynediad mwyaf at wasanaethau (yr 20% lleiaf difreintiedig yng Nghymru) yn gwneud 2.5% (16.0 o deithiau y pen y flwyddyn) o'u teithiau ar drenau, y gyfran uchaf gan y grwpiau hyn.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl rhyw yr ymatebydd

- Nid oedd fawr o wahaniaethau yn y gyfran o deithiau a wnaed yn ôl rhyw yr ymatebydd. Roedd teithiau trên yn cyfrif am 1.9% o deithiau dynion a menywod a ymatebodd.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl grŵp oedran

- Roedd cyfran y teithiau a wnaed ar y trên yn gostwng gydag oedran. Rydym yn amcangyfrif bod unigolion 16-24 oed yn gwneud 4.5% o'u teithiau ar y trên, y gyfran uchaf

o bob grŵp oedran. Roedd y rheini yn y grŵp 25-44 oed yn gwneud 2.6% o deithiau ar drenau.

- Roedd ymatebwyr 45-64 oed wedi gwneud 1.3% o'u teithiau ar drenau, ac roedd grwpiau oedran hŷn wedi gwneud 0.9% o'u teithiau ar drenau (65-74 a 75 oed a hŷn).

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl statws anabledd

- Roedd ymatebwyr nad ydynt yn anabl yn gwneud 2.0% o'u teithiau ar y trên, o'i gymharu ag 1.3% o ymatebwyr anabl.

Cyfran y prif ddull teithio yn ôl pwy sydd â thrwydded yrru

- Ar gyfer ymatebwyr heb drwydded yrru lawn, roedd 4.6% o deithiau'n cael eu gwneud ar drenau. Roedd y rheini â thrwydded yrru yn gwneud 1.4% o deithiau ar drenau.

- Er mwyn cymharu, y brif gyfran o'r dull teithio ar fws oedd 14.0% o deithiau ymysg y rheini nad oes ganddynt drwydded yrru lawn o'i gymharu ag 1.7% o deithiau gan y rheini sydd â thrwydded yrru lawn.

Teithiau aml-ddull

Pan fydd dau ddull teithio neu fwy yn cael eu defnyddio ar gyfer un daith, gelwir hyn yn daith aml-ddull. Y prif ddull teithio yw'r dull a ddefnyddir ar gyfer y pellter hiraf yn y daith. Diffinnir dulliau eraill a ddefnyddir yn y daith fel dulliau ychwanegol. Mae rhagor o fanylion am deithiau aml-ddull ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod 10.5% o'r holl deithiau yn rhai aml-ddull (65.4 taith y pen y flwyddyn).

- Ymysg teithiau aml-ddull, roedd 17.8% yn defnyddio'r trên fel y prif ddull teithio. Roedd 4.1% arall o deithiau aml-ddull yn defnyddio'r trên fel dull teithio ychwanegol.

- Roedd cyfanswm o 2.3% o'r holl deithiau'n ymwneud â threnau, naill ai fel y prif ddull (1.9%) neu fel dull teithio ychwanegol (0.4%). Roedd hyn yn cyfateb i 14.6 taith y pen y flwyddyn gan ddefnyddio trên ar ryw adeg.

- Teithiau a oedd yn cynnwys trenau oedd y trydydd math mwyaf cyffredin o deithiau aml-ddull, y tu ôl i'r rheini a oedd yn cynnwys defnyddio car a theithio ar fws.

Teithiau yn ôl ac ymlaen o orsafoedd rheilffordd

- Gwnaed 70.7% o deithiau i orsafoedd trenau a 68.5% o orsafoedd trenau drwy gerdded neu olwyno.
- Gwnaed 18.8% o deithiau i'r orsaf drenau mewn car, 4.8% ar fws ac 1.8% ar feic.
- Roedd 48.2% o deithiau i orsafoedd trenau o dan 1km o hyd ac roedd 40.3% o deithiau rhwng 1km a 5km.
- Yn yr un modd, roedd 42.0% o deithiau o'r orsaf drenau i'r gyrchfan o dan 1km o hyd. Roedd 48.4% o deithiau eraill o'r orsaf drenau rhwng 1km a 5km o hyd.

Pellter y daith

Pellter y daith ar y trên yw hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol rhwng dwy orsaf drenau. Mae cyfanswm y pellter hefyd yn cynnwys y llwybr mwyaf uniongyrchol posibl o'r man cychwyn i'r orsaf drenau wreiddiol, ac o'r orsaf drenau derfynol i gyrchfan y daith.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym wedi cyfrifo pellteroedd ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod hyd cymedrig y daith ar draws pob dull o deithio yn 15.5km, gyda hyd canolrifol taith yn 5.8km.

- Roedd teithiau trên fel arfer yn hirach na theithiau drwy ddefnyddio dulliau eraill. Pellter cymedrig taith ar drên oedd 61.2km ac roedd y pellter canolrifol yn 33.1km.
- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teithio 737.1km y pen y flwyddyn ar drên. Roedd hyn yn 7.6% o gyfanswm y pellter a deithiwyd y pen y flwyddyn (9,670.6km).
- Mae dros 33.8% o deithiau ar drên rhwng 20km a 50km. Roedd 23.9% rhwng 50km ac 80km, gydag 15.1% arall yn 80km neu'n hirach.
- Rydym yn amcangyfrif bod defnyddwyr trenau mynych yn teithio 3,817.2km y pen y flwyddyn ar drên, a oedd yn cyfrif am 36.9% o gyfanswm y pellter a deithiwyd. Pellter cymedrig taith ar drên gan y defnyddwyr hyn oedd 48.5km.
- Roedd teithiau gan ddefnyddwyr trenau anfynych yn hirach, gyda hyd teithio cymedrig o 93.8km.
- Cost fesul cilomedr wedi'i bwysoli a deithiwyd ar drên yw £0.24. Nid oedd hyn yn cynnwys y rheini a oedd yn teithio am ddim. I gael rhagor o wybodaeth am y gost fesul cilomedr, tarwch olwg ar ein dogfen ddiffiniadau.

Rheilffyrdd: Cyfran y teithiau yn ôl pellter

Ffigur 3: Cyfran y teithiau ar drên yn ôl grŵp pellter, 2025/26.



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar llorweddol yn dangos cyfran y teithiau trên, y pen y flwyddyn, yn ôl grŵp pellter. Mae teithiau byrrach ar y trên yn anghyffredin, gyda dros hanner y teithiau'n 20km neu'n hirach.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, pellter a deithiwyd

Pwrpas y daith

'Pwrpas y daith' yw'r prif reswm pam yr oedd ymatebydd yn teithio. Yn aml iawn, mae hyn yn seiliedig ar y gweithgaredd a wneir ym man cychwyn y daith neu yn y gyrchfan. Mae teithiau hamdden yn unig, lle mai'r weithred o deithio yw'r gweithgaredd hamdden (er enghraifft, mynd i redeg neu gymryd rhan mewn chwaraeon) wedi'u heithrio. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol o deithiau cyfleustodau.

Mae gwybodaeth am y teithiau a gynhwyswyd ar gael yn ein diffiniadau.

- Y pwrpas teithio mwyaf cyffredin wrth deithio ar drên oedd cymudo (32.7%). Roedd hyn yn uwch na'r gyfran gyffredinol o deithiau ar gyfer cymudo (19.3%).
- Roedd teithiau i ddigwyddiadau cymdeithasol neu adloniant (21.8%) ar y trên hefyd yn fwy poblogaidd na'r gyfran gyffredinol o deithiau at y diben hwn (17.7%).
- Roedd siopa, y pwrpas teithio mwyaf poblogaidd yn gyffredinol (23.1%) yn llai cyffredin ar gyfer teithiau trên (14.9%) ond roedd yn dal ymysg y dibenion mwyaf cyffredin a ddewiswyd.

- Roedd 13.1% o deithiau ar drên ar gyfer gwyliau neu daith diwrnod, o'i gymharu â dim ond 3.4% o'r holl deithiau.

Profiad o deithio ar drên

Fe wnaethom ofyn cwestiynau ychwanegol i ddefnyddwyr trên am eu profiad ar eu taith ddiweddaraf ar drên. Rydym wedi diffinio defnyddiwr trên fel unrhyw ymatebydd sy'n dweud ei fod wedi teithio ar drên o leiaf unwaith bob ychydig o fisoedd. Roedd hyn yn cyfateb i tua 43.7% o'r holl ymatebwyr.

Bodlonrwydd cyffredinol ar y daith

- Dywedodd 78.6% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu taith yn gyffredinol (33.5% yn fodlon iawn a 45.1% yn eithaf bodlon). Dywedodd 10.4% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 6.2% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.

- Roedd 76.1% o'r ymatebwyr anabl yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon, o'i gymharu ag 80.2% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl.

- De-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr bodlon, sef 81.7%, a De-orllewin Cymru oedd â'r gyfran isaf, sef 74.1%. Roedd 75.7% o'r ymatebwyr yng Nghanolbarth Cymru yn fodlon ar eu taith ddiweddaraf ar y trên, fel yr oedd 74.8% yng Ngogledd Cymru.

- Yn gyffredinol, gostyngodd bodlonrwydd ar y daith yn gyffredinol ar y trên dros grwpiau oedran. Roedd 81.7% o bobl ifanc 16-24 oed yn fodlon, o'i gymharu â 72.9% o ymatebwyr 75-84 oed. Fodd bynnag, roedd 80.7% o'r ymatebwyr 85 oed neu hŷn yn fodlon ar eu taith gyffredinol.

Bodlonrwydd ar ddiogelwch

- Dywedodd 86.9% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu diogelwch (43.3% yn fodlon iawn a 43.7% yn eithaf bodlon). Dywedodd 6.2% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 2.4% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.

- Roedd 83.7% o'r ymatebwyr anabl yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon, o'i gymharu ag 88.3% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl.

- Nid oedd llawer o wahaniaeth o ran bodlonrwydd ar ddiogelwch a rhyw gydag 87.3% o'r dynion a ymatebodd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon o'i gymharu ag 87.0% o'r menywod a ymatebodd.

- Roedd mân wahaniaethau o ran bodlonrwydd ar ddiogelwch ar draws y rhanbarthau, gyda De-ddwyrain Cymru (88.7%) a Chanolbarth Cymru (88.5%) yn fwy bodlon na De-orllewin Cymru (84.7%) a Gogledd Cymru (83.4%).

- Roedd bodlonrwydd ar ddiogelwch wedi gostwng 13.9 pwynt canran dros y grwpiau oedran, gyda 91.7% o'r rheini sy'n 16-24 oed yn teimlo'n fodlon o'i gymharu â 77.8% o'r rheini sy'n 85 oed neu'n hŷn.

Bodlonrwydd ar nodweddion teithiau ar drên

Cafodd defnyddwyr trenau eu dewis ar hap naill ai i ateb cwestiynau am fodlonrwydd ar argaeledd gwybodaeth a thocynnau, neu brydlondeb a dibynadwyedd.

Bodlonrwydd ar yr wybodaeth sydd ar gael

- Roedd 81.6% o'r ymatebwyr yn fodlon ar yr wybodaeth sydd ar gael (35.8% yn fodlon iawn, 45.8% yn eithaf bodlon). Dywedodd 9.9% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 3.2% eu bod yn anfodlon iawn.

- Nododd menywod a dynion a ymatebodd lefelau tebyg o fodlonrwydd o ran yr wybodaeth sydd ar gael (82.9% ac 80.1% yn y drefn honno).

- Roedd 83.6% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl yn fodlon ar yr wybodaeth sydd ar gael, o'i gymharu â 75.8% o'r ymatebwyr anabl.

Bodlonrwydd ar docynnau

- Dywedodd 82.6% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar y tocynnau (40.7% yn fodlon iawn a 41.9% yn eithaf bodlon). Dywedodd 12.7% o ymatebwyr eu bod yn anfodlon (7.8% yn anfodlon iawn a 4.9% yn eithaf anfodlon).

- Dywedodd 85.4% o fenywod a ymatebodd eu bod yn teimlo'n fodlon ar y tocynnau trên o'i gymharu â 79.2% o'r dynion a ymatebodd.

- Roedd mwy o ymatebwyr nad ydynt yn anabl yn fodlon ar y tocynnau (84.0%), o'i gymharu ag ymatebwyr anabl (77.2%).

Bodlonrwydd ar brydlondeb

- Dywedodd 72.5% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar brydlondeb (29.2% yn fodlon iawn a 43.3% yn eithaf bodlon). Dywedodd 14.0% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 8.6% eu bod yn anfodlon iawn.

Bodlonrwydd ar ddibynadwyedd

- Roedd 24.1% o ddefnyddwyr yn anfodlon (15.4% yn anfodlon iawn, 8.8% yn eithaf anfodlon) ar ddibynadwyedd eu taith ddiweddaraf ar y trên. Dyma'r ffactor â'r gyfran uchaf o anfodlonrwydd ymatebwyr ymysg yr holl ffactorau ar gyfer trenau.

- Fodd bynnag, dywedodd 70.7% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar ddibynadwyedd (27.3% yn fodlon iawn a 43.4% yn eithaf bodlon).

Teimlo croeso

- Dywedodd 88.6% o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod croeso iddynt ar eu taith ddiweddaraf (42.1% yn fawr iawn a 46.5% i ryw raddau). Dywedodd 6.2% o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt (1.0% yn fawr iawn a 5.2% i ryw raddau).

- Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng menywod (89.1%) a dynion (88.7%) a ymatebodd.

- Roedd 90.1% o'r ymatebwyr nad oeddent yn anabl yn dweud eu bod yn teimlo bod croeso iddynt, o'i gymharu ag 85.2% o'r ymatebwyr anabl.

Pam oedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd croeso iddynt

Dywedodd 6.2% o ddefnyddwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt ar eu taith ddiweddaraf ar y trên. Gofynnom i'r defnyddwyr pam eu bod yn teimlo fel hyn.

- Roedd 69.6% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn teimlo nad oedd cael croeso iddynt yn dweud mai'r rheswm am hynny oedd "teithwyr eraill". Dilynwyd hyn gan "y pethau o'ch cwmpas (ar y trên ac yn yr orsaf)" (46.3%) a "staff yr orsaf a'r trên" (23.8%).

- Dywedodd 81.3% o fenywod a ymatebodd mai "teithwyr eraill" oedd yn gwneud iddynt deimlo nad oedd croeso iddynt, o'i gymharu â 55.9% o'r dynion a ymatebodd.

- Dywedodd 29.2% o'r dynion a ymatebodd fod "staff yr orsaf a'r trên" yn gwneud iddynt deimlo nad oedd croeso iddynt o'i gymharu â 20.9% o'r menywod a ymatebodd.

- Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr anabl (80.2%) mai "teithwyr eraill" oedd yn gwneud iddynt deimlo nad oedd croeso iddynt, o'i gymharu ag ymatebwyr nad oeddent yn anabl (68.3%).

- Dywedodd 26.6% o'r ymatebwyr nad oeddent yn anabl fod "staff yr orsaf a'r trên" yn gwneud iddynt deimlo nad oedd croeso iddynt, o'i gymharu â 10.6% o'r ymatebwyr anabl.

Defnyddio'r Gymraeg wrth deithio ar drên

Gofynnwyd i ddefnyddwyr trenau a allai gyfathrebu yn Gymraeg pa iaith roeddent yn ei defnyddio wrth deithio ar drên. Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym wedi diffinio defnyddwyr Cymraeg ar gael yn ein dogfen ddiffiniadau. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn wrth ateb y cwestiwn hwn.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio Saesneg (94.8%) yn ystod eu taith ar drên. Roedd 27.3% yn defnyddio'r Gymraeg.

- Gofynnwyd cwestiwn dilynol i'r 72.7% a ddywedodd wedyn nad oeddent wedi defnyddio'r Gymraeg ynghylch a oeddent eisiau cyfathrebu yn Gymraeg. Nid oedd 88.2% eisiau cyfathrebu yn Gymraeg ac roedd 6.7% yn dymuno gwneud hynny ond nid oeddent yn gallu gwneud hynny.

Bodlonrwydd ar deithio'n annibynnol

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr pa mor fodlon oeddent ar eu gallu eu hunain i deithio'n annibynnol heb gymorth staff nac unrhyw deithwyr nad oeddent wedi dechrau ar eu taith gyda nhw.

- Roedd tua thri chwarter yr ymatebwyr (76.8%) yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu gallu i deithio'n annibynnol.

- Dim ond 5.3% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn (2.4%) neu'n eithaf anfodlon (2.9%) ar eu gallu i deithio'n annibynnol. Dywedodd 10.7% nad ydynt yn teithio ar y trên.

- Roedd 57.4% o'r ymatebwyr anabl yn fodlon ar eu gallu i deithio'n annibynnol ar y trên, o'i gymharu ag 86.3% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl.

Gwybodaeth am docynnau a chardiau teithio rhatach

- Roedd gan 18.5% o'r ymatebwyr gerdyn neu docyn teithio rhatach neu am bris gostyngol. Nid oedd gan 79.7% o'r ymatebwyr docyn o'r fath.

Fforddiadwyedd teithio ar drenau

Rhennir cwestiynau ar fforddiadwyedd tocynnau trên rhwng y rheini sydd â cherdyn rhatach neu docyn teithio rhatach arall a'r rheini sydd heb gerdyn o'r fath (tocyn teithio rhatach o hyn ymlaen).

Ymatebwyr heb docyn teithio rhatach

Gofynnwyd i ymatebwyr heb docyn teithio rhatach (79.7%) a oeddent yn teimlo y gallent deithio ar gyfer amrywiaeth o ddibenion.

- Dywedodd 35.1% o'r ymatebwyr y gallent fforddio teithio ar gyfer pob diben. Dywedodd 32.2% eu bod yn gallu fforddio teithio ar gyfer unrhyw gyfuniad o apwyntiadau iechyd hanfodol a/neu siopa, gwaith neu addysg, neu ymweld â ffrindiau neu deulu neu at ddibenion cymdeithasol a hamdden.

- Dywedodd 13.1% na allent fforddio teithio o gwbl.

Ymatebwyr gyda thocyn teithio rhatach

Gofynnwyd i ymatebwyr gyda thocyn teithio rhatach (18.5%) a oeddent yn teimlo y gallent deithio ar gyfer amrywiaeth o ddibenion.

- Dywedodd 15.6% o'r ymatebwyr fod eu cerdyn teithio yn caniatáu iddynt deithio am ddim.

- Dywedodd 32.1% o'r ymatebwyr y gallent fforddio teithio ar gyfer pob diben. Dywedodd 41.4% eu bod yn gallu fforddio teithio ar gyfer unrhyw gyfuniad o apwyntiadau iechyd hanfodol a/neu siopa, gwaith neu addysg, neu ymweld â ffrindiau neu deulu neu at ddibenion cymdeithasol a hamdden.

- Dywedodd 6.5% na allent fforddio teithio o gwbl.

Gofynnwyd i ymatebwyr a allai fforddio teithio wrth ddefnyddio eu cerdyn neu docyn teithio rhatach, pe na baent yn gallu teithio am bris gostyngol, a fyddent yn gallu fforddio teithio ar gyfer yr un dibenion.

- Dywedodd 38.7% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo y gallent fforddio teithio ar gyfer pob diben heb docyn teithio rhatach. Dywedodd 40.2% yn rhagor eu bod yn teimlo y gallent fforddio teithio ar gyfer unrhyw gyfuniad o apwyntiadau iechyd hanfodol a/neu siopa, gwaith neu addysg, neu ymweld â ffrindiau neu deulu neu at ddibenion cymdeithasol a hamdden.

- Dywedodd 21.8% eu bod yn teimlo na allent fforddio teithio o gwbl.

Ffactorau a fyddai'n annog defnyddwyr i deithio ar drenau yn amlach

- Roedd 65.6% o ymatebwyr yn cael eu hystyried yn unigolion a oedd yn ddefnyddwyr trenau.

- Y ffactorau mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog mwy o ddefnyddwyr i deithio ar y trên oedd "tocynnau rhatach, symlach" (60.2%), "gwell dibynadwyedd" (35.1%) a "gwasanaethau amlach, gan gynnwys mwy o wasanaethau yn ystod cyfnodau tawelach" (29.3%).

Beth fyddai'n annog pobl i deithio ar y trên

Ffigur 4: Ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio ar drên yng Nghymru, 2025/26.



Disgrifiad o Ffigur 5: Siart bar llorweddol yn dangos y ffactorau fyddai'n annog pobl i deithio ar y trên. Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr a'r rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr oedd "prisiau rhatach, symlach" (60.2% a 39.4% yn y drefn honno).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, ffactorau i annog newid dulliau teithio i ddulliau teithio cynaliadwy

Nodyn 1: Yn seiliedig ar ba mor aml yr oedd ymatebwyr yn teithio, cafodd 3,820 (65.6%) o unigolion eu nodi fel defnyddwyr trenau a 2,135 (31.1%) eu nodi fel pobl nad oeddent yn defnyddio trenau.

Nodyn 2: Ni ofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa wasanaeth trenau neu gwmni trenau roeddent yn ei ddefnyddio.

Rhyw yr ymatebydd

- Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y ffactorau a'r cyfrannau a ddewiswyd rhwng dynion a menywod a ymatebodd gyda'r un opsiynau ag uchod.

Statws anabledd

- Roedd y ffactorau mwyaf poblogaidd ymysg defnyddwyr rheilffyrdd nad ydynt yn anabl yn debyg i'r cyfrannau cyffredinol, gyda 62.0% yn dewis "tocynnau rhatach, symlach", 35.9% yn dewis "gwell dibynadwyedd" a 30.6% yn dewis "gwasanaethau amlach, gan gynnwys mwy o wasanaethau yn ystod cyfnodau tawelach". Dewiswyd "sicrwydd cael sedd" gan 25.5% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl fel y pedwerydd ffactor a ddewiswyd amlaf.

- Dewisodd 53.8% o'r ymatebwyr anabl "docynnau rhatach, symlach", dewisodd 33.9% ohonynt "well dibynadwyedd" a dewisodd 29.0% ohonynt "sicrwydd cael sedd".

Rhanbarthau

- Dewisodd pob rhanbarth yng Nghymru "docynnau rhatach, symlach" fel y ffactor mwyaf cyffredin a fyddai'n annog pobl i ddefnyddio trenau, gan amrywio o 50.1% yng Nghanolbarth Cymru i 63.5% yn Ne-orllewin Cymru.

- "Gwell dibynadwyedd" oedd yr ail ffactor a oedd yn cael ei ddewis gan bob rhanbarth – 31.3% yng Ngogledd Cymru i 40.5% yng Nghanolbarth Cymru.

- Dywedodd ymatebwyr yn Ne-ddwyrain Cymru a Chanolbarth Cymru mai "gwasanaethau amlach" oedd y trydydd ffactor mwyaf cyffredin (29.3% a 30.3% yn y drefn honno) a dywedodd De-orllewin Cymru a Gogledd Cymru "sicrwydd cael o sedd" (29.4% a 31.1% yn y drefn honno).

Grŵp oedran

- "Tocynnau rhatach, symlach" oedd y ffactor mwyaf cyffredin ar draws pob grŵp oedran, ar wahân i'r rheini sy'n 85 oed neu'n hŷn lle'r oedd yr ail ffigur uchaf (ar ôl "dim un o'r rhain" sef 35.1%). Cafodd ei ddewis gan 29.0% o'r ymatebwyr 85 oed neu hŷn a 67.9% o'r ymatebwyr 16-24 oed.

- "Gwell dibynadwyedd" oedd y ffactor a ddewiswyd amlaf ond un gan ymatebwyr mewn grwpiau oedran rhwng 16-24 a 75-84. Roedd hyn yn amrywio o 28.3% o'r ymatebwyr 75-84 oed a 38.6% o'r ymatebwyr 25-34 oed.

- Cafodd “sicrwydd cael sedd” a “gwasanaethau amlach” eu dewis yn gyffredin hefyd, gydag ymatebion yn amrywio o 23.0% o bobl 85 oed neu hŷn i 34.1% o bobl 55-64 oed.

- Dewisodd 19.1% o'r rheini sy'n 85 oed neu'n hŷn “cysylltiadau gwell â gorsafoedd ar fws, drwy gerdded, olwyno a beicio” fel y trydydd ffactor a ddewiswyd amlaf.

Ffactorau a fyddai'n annog pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr i deithio ar drenau yn amlach

- Roedd 31.1% o ymatebwyr yn cael eu hystyried yn unigolion nad oeddent yn ddefnyddwyr trenau.

- Y ffactor mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog y rheini nad ydynt yn defnyddio trenau i'w defnyddio oedd “tocynnau rhatach, symlach” (39.4%), yna “dim un o'r rhain” (33.9%) a “gorsaf yn nes at lle rydw i'n byw” (17.8%).

Rhyw yr ymatebwyr

- Roedd cyfran uwch o ddynion a ymatebodd wedi dewis “tocynnau rhatach, symlach” (42.5%) o'i gymharu â menywod a ymatebodd (37.0%). Fodd bynnag, roedd yr ymatebion eraill yn cyd-fynd â'r cyfrannau cyffredinol ac yn gymharol debyg o ran cyfran.

Statws anabledd

- Er bod yr opsiynau mwyaf poblogaidd yr un fath rhwng ymatebwyr anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl, dewisodd 28.7% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl “dim un o'r rhain” o'i gymharu â 44.2% o'r ymatebwyr anabl.

- Dewiswyd “tocynnau rhatach, symlach” gan 45.6% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl a 27.5% o ymatebwyr anabl.

Rhanbarthau

- “Tocynnau rhatach, symlach” oedd y ffactor a ddewiswyd amlaf yn Ne-orllewin Cymru (47.3%), Gogledd Cymru (37.6%) a De-ddwyrain Cymru (37.4%). Yng Nghanolbarth Cymru, roedd y gyfran uchaf o ymatebwyr wedi dewis “gorsaf yn nes at lle rydw i'n byw” (36.9%).

- Roedd “dim un o'r rhain” yn ffactor a ddewiswyd yn gyffredin ym mhob rhanbarth, gan amrywio o 27.6% yng Nghanolbarth Cymru i 37.2% yng Ngogledd Cymru.

- Yng Ngogledd Cymru, dewisodd 15.0% o'r ymatebwyr “sicrwydd cael sedd” ac yn Ne-orllewin Cymru, dewisodd 17.6% o'r ymatebwyr “gwell dibynadwyedd” fel y trydydd ffactor mwyaf cyffredin.

Yn ôl grŵp oedran

- Roedd “dim un o'r rhain” yn ffactor a oedd yn cael ei ddewis yn aml ar draws pob grŵp oedran. Fodd bynnag, roedd yn sylweddol uwch ymysg y rhai 85 oed neu hŷn (66.4%) o'i gymharu ag oedrannau eraill, gyda 42.1% o'r rhai 75-84 oed yr ail uchaf.

- “Tocynnau rhatach, symlach” oedd y ffactor mwyaf cyffredin ar draws pob grŵp oedran, ar wahân i'r rheini sy'n 85 oed neu'n hŷn lle'r oedd y pedwerydd ffigur uchaf. Cafodd ei ddewis gan 10.6% o'r ymatebwyr 85 oed neu hŷn a 47.8% o'r ymatebwyr 35-44 oed.

- Dewiswyd “gwell dibynadwyedd” gan gyfran uwch o ymatebwyr mewn grwpiau oedran iau gyda 24.4% a 20.0% o'r rhai 16-24 oed a 25-34 oed yn dewis y ffactor hwn. Fel arfer, “sicrwydd cael sedd” a “gorsaf yn nes at lle rydw i'n byw” oedd y trydydd ffactorau mwyaf cyffredin a ddewiswyd ar gyfer grwpiau oedran 35-44 i 85 neu hŷn.